RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 3 Rhagfyr 2020 am 10.30 am.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-**

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd G Hopkins

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion

## Eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Jones
Dr L Arthur - SCHAC

**37 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**38 Moderneiddio Gofal Preswyl a Gofal Oriau Dydd ar gyfer Pobl Hŷn**

Rhannodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant adroddiad â'r Cabinet. Roedd yr adroddiad yn rhannu manylion ynghylch canlyniadau'r ymgynghoriad ar yr opsiynau sy'n cael eu ffafrio mewn perthynas ag un ar ddeg cartref gofal preswyl ar gyfer pobl hŷn y mae'r Cyngor yn eu rheoli ac yn gwneud argymhellion pellach a fyddai'n cynyddu nifer y cartrefi gofal

preswyl sy'n cael eu cynnal gan y Cyngor i naw, gan gynnwys Garth Olwg ac Ystrad Fechan ac yn ailddatblygu Dan y Mynydd a Bronllwyn er mwyn bodloni'r galw am lety â gofal a chymorth ychwanegol sydd wedi'i nodi, gan gynnwys llety gofal ychwanegol.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyfadran amlinelliad o fwriad y Cyngor i wella a moderneiddio'r model darparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl y Cyngor (a gwasanaethau gofal oriau dydd). Cafodd y model yma ei sefydlu ym mis Medi 2017 pan gymeradwyodd y Cabinet fuddsoddiad gwerth £50miliwn i ddatblygu cyfanswm o 300 gwely gofal ychwanegol ledled Rhondda Cynon Taf ac i ddarparu llety modern i fodloni anghenion a disgwyliadau newidiol y boblogaeth hŷn sy'n tyfu.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod i'r Cabinet bod y dull wedi'i seilio ar ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n gosod dyletswyddau llywio'r farchnad ar y Cyngor. Mae canllawiau hefyd yn nodi bod gofyn i awdurdodau lleol sicrhau bod digon o wasanaethau o ansawdd ar gael yn yr ardal a bod y gwasanaethau yma'n gynaliadwy. Roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran o'r farn bod y disgwyliadau a'r anghenion yn newid a bod preswylwyr RhCT yn haeddu gwell.

Siaradodd y Cyfarwyddwr Cyfadran am ganlyniadau adolygiad annibynnol wedi'i gomisiynu gan Practice Solutions Ltd a gafodd ei drafod gan y Cabinet yn 2018. Roedd yr adolygiad yma'n herio'r Awdurdod Lleol i drawsnewid ei gyfleusterau i fod yn gyfleuster gofal ychwanegol, ar y dybiaeth fod dim angen gofal preswyl. Esboniodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod y Cabinet wedi trafod canlyniadau'r ymgynghoriad ar y cynnig i gadw rhywfaint o ddarpariaeth gofal preswyl ym mis Medi 2019. Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn a ffafrir mewn perthynas â chynnal darpariaeth cartref gofal preswyl sy'n canolbwyntio ar anghenion cymhleth (gan gynnwys dementia), ailalluogi gofal preswyl a gofal seibiant. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y Cabinet at atodiad B a C, sy'n nodi manylion llawn yr ymgynghoriad er mwyn eu trafod.

Roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran o'r farn bod lefel yr ymgynghori a gafodd eu cyflawni ac ymgysylltiad y cyhoedd, ynghyd â nifer o newidiadau i'r cynigion, yn dangos bod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar uchelgais yn hytrach na chyni a buddsoddi yn hytrach nag arbedion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran mai'r flaenoriaeth bennaf oedd sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y gwasanaethau gorau posibl er mwyn bodloni'u hanghenion, gan gynnal darpariaeth fewnol.

Cafodd yr Aelodau o'r Cabinet wybod bod yr adroddiad wedi cael ei drafod yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 1 Rhagfyr 2020. Nododd y Swyddog fod Aelodau'r Pwyllgor Craffu o'r farn y byddai'r argymhellion yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer y gymuned.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau at yr atodiadau, sy'n nodi'r manylion ar gyfer y cynllun safle arfaethedig er mwyn eu trafod.

Daeth y Cyfarwyddwr Cyfadran â'i gyflwyniad cyntaf i ben trwy ddiolch i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion am ei waith diflino wrth lunio'r adroddiad agored ar gyfer y Cabinet, Practice Solutions am ei adolygiad annibynnol a'r gymuned am gymryd rhan yn y broses.

Manteisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg ar y cyfle i ddiolch i aelodau am yr adroddiad manwl a'r cyhoedd

am gymryd rhan yn y broses ymgynghori helaeth.

Aeth y Dirprwy Arweinydd ati i ganmol y broses ymgynghori gadarn sydd wedi cael ei chynnal. Nododd ei bod hi'n hanfodol fod y Cabinet yn trafod barn y cyhoedd cyn gwneud unrhyw newidiadau. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at y sylwadau a gafodd eu gwneud gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac roedd yn falch o nodi eu cefnogaeth i'r cynigion yn gyffredinol.

Aeth y Dirprwy Arweinydd ymlaen i gydnabod bod angen cyflawni gwaith moderneiddio a gwella'r cyfleusterau a bod pobl hŷn yn haeddu'r deilliannau gorau posibl. Siaradodd yr Aelod o’r Cabinet am ei hymweliadau â'r cartref gofal ychwanegol fel Tŷ Heulog yn Nhonysguboriau gan siarad am y cyfleusterau gwych. Holodd y Dirprwy Arweinydd pa ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan RCT i'w bobl hŷn o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod nifer o Awdurdodau Lleol wedi dewis ymrwymo i'r Sector Annibynnol neu gyfleusterau gofal ychwanegol yn gyfan gwbl.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol am y pwysau sydd wedi'i osod ar yr Awdurdod Lleol o ran cynni a thoriadau i'r gyllideb. Roedd yn falch o nodi bod miloedd wedi cael ei fuddsoddi. Roedd yr Aelod yn falch o nodi bod gwerth miliynau o bunnoedd wedi cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer pobl hŷn a’r bwriad yw parhau gyda darpariaeth fewnol. Yn ogystal â hyn, nododd yr Aelod o'r Cabinet fod anghenion pobl hŷn yn newid a bod nifer o bobl hŷn eisiau bod yn annibynnol, gyda rhagor o gyfleoedd i gymdeithasu, bod yn heini ac roedden nhw o'r farn y byddai darpariaeth gofal ychwanegol yn bodloni'u hanghenion. Ychwanegodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai peidio â moderneiddio agenda'r Awdurdod Lleol ar gyfer pobl hŷn yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Siaradodd yr Arweinydd am yr adroddiad cychwynnol a gafodd ei gomisiynu'n annibynnol, sy'n awgrymu nad oedd angen gofal preswyl a phenderfyniad y Cabinet i wrthod yr opsiwn yma a chefnogi cymysgedd o gyfleusterau gofal preswyl a gofal ychwanegol. Dywedodd yr Arweinydd fod ymgynghoriad helaeth wedi bod yn ddefnyddiol, a nododd fod yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad wedi cael eu diwygio i gadw naw cartref preswyl y mae’r Cyngor yn eu rheoli o ganlyniad i'r adborth. Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod bod gan bobl wahanol anghenion gwahanol, roedd o'r farn mai cymysgedd o lety, sy'n cynnwys cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau gofal ychwanegol a thai gwarchod gyda chymdeithasau tai oedd y ffordd orau o symud ymlaen.

Gyda chytundeb y Cadeirydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Williams a Dr L. Arthur, trigolyn RhCT a chynrychiolydd yr ymgyrch SCHAC mewn perthynas â'r eitem yma.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams mewn perthynas ag amserlen datblygiad Dan y Mynydd a'r goblygiadau cynllunio sydd wedi'u nodi ar safle Bronwydd, rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn gynnar yn 2021, yn amodol ar gymeradwyo'r argymhellion. Y bwriad yw bwrw ymlaen â'r datblygiad ar unwaith. Mewn perthynas â'r rhesymau dros newid lleoliad safle Bronwydd i safle Dan y Mynydd, rhoddodd yr Arweinydd wybod bod yna bosibilrwydd y byddai'r adeilad cofrestredig ym Mronwydd yn ormesol, ac yn arwain at golli mannau awyr agored yn y cyfleuster.

Wrth ymateb i'r pryderon a gafodd eu codi gan y siaradwr o'r cyhoedd, rhoddodd

y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod bod yr Awdurdod Lleol wedi bod yn hyblyg trwy gydol y broses ac wedi casglu tystiolaeth gadarn er mwyn llunio casgliad. Siaradodd y Cyfarwyddwr Cyfadran am drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dyfodol gofal cymdeithasol i oedolion, rhoddodd wybod bod y gwaith a gafodd ei gyflawni gan RCT wedi cael ei gymeradwyo ac yn cydymffurfio â'r cynlluniau sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y byddai'r cynigion yn arwain at gynnydd yn nifer yr ystafelloedd sydd ar gael i bobl ar draws y sbectrwm, gan gynnal cyfran sylweddol o'r ddarpariaeth gofal preswyl fewnol a fyddai'n canolbwyntio ar yr anghenion cymhleth. Roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran wedi cydnabod rôl bwysig y Sector Annibynnol, a oedd hefyd gweithio'n ddiflino trwy gydol y pandemig er mwyn darparu gofal i breswylwyr a bydd yn parhau i ddarparu gwasanaethau, megis gofal nyrsio a dementia, i gynnal y system gofal ledled y Fwrdeistref. Daeth y Cyfarwyddwr Cyfadran â'i gyfraniad i ben drwy bwysleisio bod y cynigion yn ceisio trawsnewid a gwella gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, fyddai'r cynigion ddim yn tynnu unrhyw gyfleusterau o'r system.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ar bwynt a gafodd ei godi gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r cyfyngiadau sydd wedi'u gosod ar gartrefi. Nododd yr Arweinydd fod yr Awdurdod Lleol wedi bod yn ofalus iawn wrth ystyried derbyniadau yn ystod y pandemig, i sicrhau bod y cyfnod hunanynysu wedi cael ei ystyried. Cadarnhaodd bod yr Awdurdod Lleol wedi bod yn derbyn unigolion i gartrefi gofal mewn amgylchiadau eithriadol.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ymateb i sylw gan y siaradwr cyhoeddus mewn perthynas â'r sefyllfa gyffredinol o ran gwelyau. Dywedodd yr Arweinydd ei bod hi'n bosibl cynyddu nifer y gwelyau gan 30 gwely yn rhan o'r cynigion i ailfodelu gofal ychwanegol a chyfleusterau byw â chymorth.

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd am y cyfarfodydd cyson sy'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur mewn perthynas â'r cynigion. Roedd y Dirprwy Arweinydd o'r farn y byddai'n anghywir awgrymu bod y dull wedi cael ei ddefnyddio o ganlyniad i gynni, a phwysleisiodd y byddai'r buddsoddiad yn gost fawr i'r Awdurdod Lleol o ran costau cyfalaf a refeniw.

Pwysleisiodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai'r sylwadau cynharach, gan nodi bod y cynigion yn ymwneud â buddsoddi a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at gynigion Dan y Mynydd, gan nodi y byddai'n trawsnewid yr uned yn gyfleuster modern i'r rhai sydd ei angen. O ran y cyfyngiadau cynllunio a gafodd eu nodi yn achos Bronwydd, roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi bod opsiynau amgen ar gyfer y safle wedi cael eu trafod, megis byngalos, ar gyfer lefelau gofal gwahanol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg yn dymuno nodi ei ddiolch i'r staff sy'n gweithio yn y Sector Annibynnol, yn ogystal â staff mewnol y Cyngor, sydd wedi gweithio'n ddiflino ac wedi wynebu heriau sylweddol o ganlyniad i bandemig Covid-19. Talodd yr Aelod o'r Cabinet deyrnged i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor am ei drafodaeth ac i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau i Oedolion am ei ymrwymiad i'r gwaith ymgynghori ac am yr adroddiad cynhwysfawr.

Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am fwriad y Cyngor i gyflawni rhaglen gyffrous er

mwyn ehangu'r math o leoliad preswyl y mae preswylwyr RhCT yn ei haeddu. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am ei ymweliadau â'r cyfleusterau gofal ychwanegol, sef Tŷ Cwm ym Merthyr a Thŷ Heulog yn Nhonysguboriau, gan nodi ei fod e'n falch o safon y llety sy'n cael ei gynnig a balchder y preswylwyr sydd â phecynnau gofal wedi'u teilwra. Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am yr ail gyfleuster gofal ychwanegol yn RhCT, sef safle Maes-y-ffynnon. Mae'r datblygiad yma wedi cael ei drawsnewid o safle adfeiledig i safle â llety modern o safon uchel yn dilyn buddsoddiad sylweddol.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o weld y cynigion i ddatgomisiynu Dan y Mynydd, Porth, fel cartref gofal preswyl â 30 gwely a chynigion i ailddatblygu'r safle i ddarparu cynllun tai â gofal ychwanegol â 60 gwely a'r cynigion i ddatgomisiynu Bronllwyn, Gelli, fel cartref gofal preswyl â 12 gwely ac i gymeradwyo gwaith ailddatblygu'r safle i ddarparu llety arbenigol â chymorth i gefnogi pobl ag anableddau dysgu fel oedolion.

Aeth yr Aelod o’r Cabinet ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd y broses ymgynghori a barn trigolion RhCT. Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn bod y broses ymgynghori'n gwrthbrofi unrhyw honiadau sy'n awgrymu nad oes angen yr ymgynghoriad gan fod yr argymhellion sy'n cael eu cyflwyno i Aelodau yn wahanol iawn i'r rheiny yn 2017.

Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod y gwaith a gafodd ei gyflawni trwy gydol y broses, yn enwedig yn ystod cyfnod lle mae staff gofal cymdeithasol ac uwch swyddogion wedi bod yn gweithio'n ddiflino i gefnogi staff a'r Sector Annibynnol wrth fynd i'r afael â chanlyniadau pandemig Covid-19.

PENDERFYNODD **y Cabinet:**

1. Trafod:
   - yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn perthynas â'r model darparu gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl y Cyngor;
   - yr wybodaeth sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yma;
   - yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
   - y sylwadau, yr arsylwadau a/neu'r argymhellion sy'n codi o'r gwaith cyn y cam craffu a gafodd ei gyflawni gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 1 Rhagfyr 2020.

2. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffafrir sy'n cadw darpariaeth gofal preswyl yn y saith cartref gofal preswyl y mae'r Cyngor yn eu rheoli sydd wedi'u nodi isod. Byddai'r rhain yn canolbwyntio ar anghenion cymhleth (gan gynnwys dementia), gofal ailalluogi preswyl a gofal seibiant;

   - Cwrt Clydach, Trealaw
   - Ferndale House, Glynrhedynog
   - Tŷ Pentre, Y Pentre
   - Tegfan, Trecynon
   - Troed-y-Rhiw, Aberpennar
   - Cae Glas, Y Ddraenen Wen
   - Parc Newydd, Tonysguboriau

3. Cadw naw cartref gofal y mae'r Cyngor yn eu rheoli, gan gynnwys Cartrefi Gofal Preswyl Garth Olwg, Pentre'r Eglwys ac Ystrad

Fechan, Treorci, a newid y ddarpariaeth ynddyn nhw i ganolbwyntio ar anghenion cymhleth (gan gynnwys dementia), gwasanaethau ailalluogi preswyl a gofal seibiant.

4. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffafrir o ran datgomisiynu Dan y Mynydd, Porth, fel cartref gofal preswyl â 30 gwely ac ailddatblygu'r safle i ddarparu cynllun tai â gofal ychwanegol yn unol â Strategaeth y Cyngor i foderneiddio llety ar gyfer pobl hŷn a darparu llety gofal ychwanegol, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 6.4 yr adroddiad. Ar hyn o bryd, does dim preswylwyr yn byw yng Nghartref Gofal Preswyl Dan y Mynydd;

5. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nodi cynnig ailddatblygu wedi'i gostio ar gyfer Dan y Mynydd yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Ionawr 2021;

6. Bwrw ymlaen â'r opsiwn a ffafrir i ddatgomisiynu Bronllwyn, Gelli, fel cartref gofal preswyl â 12 gwely ac i gymeradwyo gwaith ailddatblygu'r safle i ddarparu llety arbenigol â chymorth i gefnogi pobl ag anableddau dysgu fel oedolion a phobl hŷn er mwyn bodloni newidiadau o ran anghenion a galw, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 5.16 yr adroddiad. Ar hyn o bryd, does dim preswylwyr yn byw yng Nghartref Gofal Preswyl Bronllwyn;

7. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nodi cynnig ailddatblygu wedi'i gostio ar gyfer Dan y Mynydd yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror 2021;

8. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn nodi rhaglen foderneiddio gynhwysfawr ar gyfer naw cartref gofal preswyl y Cyngor y cynigir eu cadw;

9. Ailgychwyn y broses o dderbyn unigolion i naw cartref gofal preswyl y Cyngor a fydd yn cael eu cadw yn unol â'r cynigion ar unwaith;

10. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2021 sy'n pennu cynnig ar gyfer ailfodelu gwasanaethau oriau dydd i bobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth sy'n cael eu darparu ar safle Dan y Mynydd yn unol â'r modelau gwasanaeth ac anghenion; a

11. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021. Bydd yr adroddiad yma'n pennu cynnig ar gyfer ailfodelu darpariaeth gwasanaethau oriau dydd ar gyfer pobl hŷn sy'n cael ei gynnig yng Nghartref Preswyl Bronllwyn yn unol â'r model gwasanaeth newydd a gafodd ei gytuno gan y Cabinet ar 11 Medi 2019.

(**Nodwch**: Ymataliodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Norris rhag pleidleisio oherwydd iddo wynebu problemau technegol yn ystod cyflwyniad y swyddog

mewn perthynas â'r adroddiad)

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.20 am**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**